

2014 Rhif 2030 (Cy. 204)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cilfan y Gerbythffordd tua'r De
rhwng Cylchfan Edlogan Way a
Chylchfan y Tyrpeg, Ger
Croesyceiliog, Torfaen) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2014

Gwnaed 25 Gorffennaf 2014

Yn dod i rym 4 Awst 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – yr Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno neu gerllaw iddo.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Awst 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cilfan y Gerbythffordd tua'r De rhwng Cylchfan Edlogan Way a Chylchfan y Tyrpeg, Ger Croesyceiliog, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn cyfan o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbythffordd tua'r de cefnffordd yr A4042, rhwng Cylchfan Edlogan Way a Chylchfan y Tyrpeg ger Croesyceiliog ym Mwrdeistref Sirol Torfaen;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 4 Awst 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Gorffennaf 2014

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.